**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru

llyr.gruffydd@senedd.wales

7 Tachwedd 2022

Annwyl Llyr,

Rwy'n cyfeirio at y llythyr dyddiedig 25 Hydref. Rwyf yn cydsynio heddiw i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) (Rhif. 3) 2022 ("y Rheoliadau") yng Nghymru. Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, heddiw rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig i'w weld ar: https://senedd.cymru/media/zgtjaxqm/ws-ld15437-w.pdf.

Bydd y Rheoliadau yn croestorri â polisïau datganoledig ac yn gymwys i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth ymarfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau yn ymestyn i Loegr, yr Alban a Chymru.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 5(3), 30(1), 37(5), 41(3), 72(3) a 105(6) Rheoliadau Iechyd Planhigion. Mae Erthygl 2a(2) o'r Rheoliadau Iechyd Planhigion yn darparu y gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud y fath Reoliadau gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 3 Tachwedd. Mae'r dyddiadau cychwyn ar gyfer y mesurau wedi'u rhannu rhwng mesurau brys (dosbarthu Thekopsora minima yn bla heb gwarantin a reoleiddir) y bwriedir iddynt ddod i rym ar 25 Tachwedd 2022 a'r holl fesurau eraill y bernir nad ydynt yn rhai brys a fydd yn dod i rym ar 3 Mai 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylid gwneud a diwygio'r gyfraith mewn perthynas â materion datganoledig yng Nghymru, ar yr achlysur hwn fe ystyrir yn briodol bod sylwedd y diwygiadau yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud rhesymegol a chyson, a'r rheoliadau'n hygyrch mewn un Offeryn. Rwy'n ystyried nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r dull mwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol ac na fyddai ychwaith yn ddefnydd darbodus o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Seilwaith, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**